

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor
Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10
Rhagfyr 2013

Deialu Union: 01824712575

e-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** sydd i'w gynnal am **9.30 am, DYDD MERCHER, 18 RHAGFYR 2013** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN** ac ryw'n amgáu'r adroddiad(au) canlynol.

Rhif Eitem 6

6 DIWEDDARIAD DRAFFT Y GYLLIDEB (Tudalennau 3 - 8)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) sy'n rhoi'r trydydd diweddariad o ran proses pennu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2014/15.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithio a Democraidd

AELODAETH

Cynghorwyr

Brian Blakeley
Stuart Davies
Peter Duffy
Martyn Holland

Gwyneth Kensler
Jason McLellan
Paul Whitham

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	18 Rhagfyr 2013
Swyddog Arweiniol:	Pennaeth Cyllid ac Asedau
Awdur yr Adroddiad:	Prif Gyfrifydd
Teitl:	Cyllideb 2014/15 - Diweddariad

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Trydydd diweddariad yw'r adroddiad hwn ynghŷn â'r broses o osod cyllideb y cyngor ar gyfer 2014/15.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol swyddogaeth i gadw trosolwg o'r broses gyllidebu.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ac yn ystyried y camau arfaethedig nesaf.

4. Manylion yr Adroddiad

Dangosodd dadansoddiad cychwynnol o Setliad Drafft Llywodraeth Leol a chanlyniadau hynny i'r cyngor y gallai fod angen arbedion o tua £8.5m.

Mae'r broses o osod cyllideb wedi arwain hyd yma at i arbedion o £1.7m ar gyfer 2014/15 gael eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir ym mis Medi (Cam 1) ac arbedion o £4.7m (Cam 2) ar 3 Rhagfyr.

Cyflwynwyd yr arbedion sydd wedi eu cynnwys yng Nham 2 mewn gweithdy ar gyfer aelodau ar 21 Hydref a chyflwynwyd pob un o'r ceisiadau gan aelodau cabinet arweiniol, a wnaeth ddarparu manylion am yr arbediad, am yr effaith a darparu asesiad o'r risg. Yn dilyn y gweithdy, gwahoddwyd yr aelodau etholedig gan Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau a Phennaeth Cyllid ac Asedau i roi sylwadau ar unrhyw un o'r cynigion cyn cyfarfod y cyngor ym mis Rhagfyr. Cafwyd ymatebion mewn perthynas ag arbedion arfaethedig yn y gwasanaeth cerddoriaeth ysgolion (£52k) ac adolygiad o'r gwasanaeth cyfleoedd gwaith ar gyfer oedolion sydd ag anabledd dysgu (£50k). Cyflwynodd y Pennaeth Gwella Ysgolion ragor o fanylion i gefnogi'r arbediad yn y gwasanaeth cerddoriaeth fel atodiad i adroddiad y cyngor ac mae grŵp tasg a gorffen sy'n cynnwys aelodau etholedig wedi cael ei sefydlu i oruchwylio'r adolygiad o gyfleoedd gwaith.

Mae proses y gyllideb wedi dynodi arbedion o £6.459m hyd yma, gan adael bwlch o tua £2.0 miliwn i'w ganfod. Dyma fydd gweithdy nesaf yr aelodau a gynhelir ar 9 Rhagfyr yn canolbwytio arno. Caiff adborth o'r sesiwn honno ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel atodiad i ddilyn yr adroddiad hwn.

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor hwn, er mwyn caniatáu amser i aelodau etholedig ddadansoddi'r papurau sydd i'w cyflwyno yn y gweithdy cyllideb, caiff yr holl bapurau eu hanfon at yr aelodau cyn 6 Rhagfyr.

Bydd yn rhaid i gynigion gogyfer â chyllideb derfynol a lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15 fod wedi eu cytuno gan y Cyngor Sir fis Chwefror 2014.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r gyllideb yn sail i ddarparu pob un o flaenoriaethau a gwasanaethau'r cyngor.

6. Beth fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Y targed ar gyfer arbedion yn 2014/15 yw £8.5m. Mae £6.5m o arbedion wedi eu dynodi sy'n gadael bwlch o £2.0 miliwn i'w ganfod.

7. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?

Mae'r arbedion sydd wedi eu cytuno hyd yma wedi cael eu trafod gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Arweiniol, wedi cael eu cyflwyno mewn gweithdai cyllideb ar gyfer aelodau ac wedi cael eu dosbarthu i staff. Gwahoddwyd yr aelodau i roi sylwadau ar yr holl gynigion cyn eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir. Trafodir y set nesaf o gynigion gydag aelodau ar 9 Rhagfyr.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol dros y blynnyddoedd nesaf. Mae proses y gyllideb hyd yma wedi dynodi 76% o'r arbedion sydd eu hangen er mwyn gosod cyllideb ar gyfer 14/15. Bydd cynigion i gyfarch y bwlch sy'n weddill yn cael eu trafod gydag aelodau ar 9 Rhagfyr.

9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Rhaid i effaith yr holl gynigion ar wasanaethau a'u heffaith ariannol fod wedi ei ystyried yn briodol fel rhan o broses gosod cyllideb.

Mae proses y gyllideb a rhagdybiaethau'r cynllun ariannol tymor canolig yn risgiau sydd wedi eu nodi yn y cofrestrau risg corfforaethol ac adrannol. Caiff

y gofrestr risg gorfforaethol a chamau lliniarol eu hadolygu'n rheolaidd gan y
Tîm Gweithredol Corfforaethol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1
Corporate Governance Committee
18th December 2013
Budget Update

Introduction

The notes below provide the latest update since the covering report was submitted for publication.

Final Local Government Settlement

The Final Settlement was published on 11th December and was largely unchanged from the Draft settlement. The most notable change was the transfer of a specific grant called the Council Tax Reduction Scheme Pensioner Grant to the Revenue Support Grant. It therefore now forms part of the council's base budget.

Third Budget Workshop

The third budget workshop for elected members was held on Monday 9th December. The event was attended by 31 members. The papers presented at the workshop were circulated in advance to all members and have been published on modern.gov (as a Council Briefing session) and are therefore available to all members to access.

The key theme was to present details and options to be considered to bridge the £2m budget gap for 2014/15.

The key information presented included:

- An update of the in-year position of social care and education budgets
- Analysis of school funding
- Options to increase school budgets
- Review of balances and reserves
- Corporate Plan update
- Council Tax options
- Additional Savings Proposals
- Recommendation

The additional saving proposals for 2014/15 relate to bringing forward savings previously identified for 2015/16 and total £395k. Of this, £95k relates to bringing forward restructures in Business Planning & Performance and £300k is the proposed removal of the budgeted contribution to balances one year earlier than originally planned. The recommendation included a proposal to use a general balances as part of the budget in 2014/15.

At the event, members were encouraged to raise any issues about the proposals with the Lead Member (Finance & Assets) or the Head of Finance & Assets prior to formal proposals being taken to County Council for approval. The Lead Member has subsequently written to all elected members, reiterating the offer to raise as individuals or in political groups, any questions or areas requiring further information.

Next Steps

Members have several weeks to raise any issues about the recommendation proposed to balance the 2014/15 budget. The final budget proposals will be presented to County Council on 27th January 2014. This will include a range of options and a recommendation for the level of Council Tax increase for 2014/15. To satisfy legal requirements, a detailed report on Council Tax levels has to be subsequently approved by County Council in February.

At the recent budget workshop, some views were expressed informally about what the level of Council Tax increase should be. It was apparent from the workshop that the Council Tax level is likely to be the key debate in the final phase of approving the 2014/15 budget as there was general acceptance of the other items recommended (granted of course that the workshop is an informal setting and no formal decisions were made). As noted above, the intention is to provide a range of Council Tax options and the financial implications of each one to County Council in January. The Lead Member and Head of Finance & Assets are keen to engage with members as much as possible before the full council meets. Therefore, in terms of the process, the views of the Corporate Governance Committee would be welcomed as to ways of encouraging engagement and debate with individual members or groups before the report is presented to County Council in January.

Planning for 2015/16 has already commenced and will escalate once the 2014/15 budget has been approved.